Paratoi a chyflwyno bwyd i'w gyflwyno'n oer

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chyflwyno cynhyrchion oer fel saladau, cynhyrchion bara, pasteiod, pates a chigoedd wedi'u cyweirio. Hefyd, mae'n ymwneud â dal bwydydd o'r fath i gynnal diogelwch bwyd effeithiol.

Mae'r cynhyrchion bwyd dan sylw yn cynnwys:
- cynhyrchion bara, fel bara a rholiau
- saladau
- pasteiod wedi'u rhagbaratoi
- cigoedd wedi'u coginio
- pysgod
- terinau wedi'u rhagbaratoi
- patés wedi'u rhagbaratoi
- cigoedd wedi'u cyweirio
- pysgod cregyn
- vinaigrette a sawsiau oer sylfaenol

Mae'r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau technegol y mae eu hangen i baratoi a chyflwyno bwyd i'w gyflwyno'n oer; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i'r rôl ac i'r sefydliad, ar y cyd â'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:
- Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
- Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
- Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
- Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r safon hon, byddwch chi'n gallu dangos eich dealltwriaeth o'r canlynol, a'ch gallu i:
- Baratoi a chyflwyno bwyd i'w gyflwyno'n oer

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Dewis y math o gynhyrchion bwyd a chynhwysion garnais a faint sydd eu hangen i’w paratoi
2. Gwirio bod y cynhyrchion bwyd a chynhwysion garnais yn bodloni gofynion ansawdd a gofynion eraill
3. Dewis yr offer, y cyllyll a’r cyfarpar cywir i baratoi a chyflwyno’r bwyd i’w gyflwyno’n oer
4. Defnyddio’r offer, y cyllyll a’r cyfarpar yn gywir wrth baratoi a chyflwyno’r bwyd
5. Paratoi’r cynhyrchion bwyd i fodloni gofynion y saig
6. Sicrhau bod gan y cynhyrchion bwyd y blas, y lliw a’r ansawdd cywir, a bod eu maint yn gywir
7. Garneisio a chyflwyno’r cynhyrchion bwyd i fodloni gofynion
8. Storio unrhyw gynhyrchion bwyd a garnais a baratowyd na fyddant yn cael eu defnyddio ar unwaith yn unol â rheoliadau diogelwch bwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Sut i sicrhau bod y cynhyrchion bwyd a chynhwysion garnais yn bodloni gofynion
2. Pa bwyntiau ansawdd i chwilio amdanynt wrth gyflwyno bwydydd wedi'u coginio, eu cyweirio a'u paratoi
3. Pam dylech chi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r eitemau bwyd i'w cyflwyno'n oer, ac i bwy
4. Yr offer, y cyllyll a'r cyfarpar cywir i gyflawni'r dulliau paratoi gofynnol
5. Pam mae'n bwysig defnyddio'r technegau, yr offer, y cyllyll a'r cyfarpar cywir wrth baratoi bwyd i'w gyflwyno'n oer
6. Sut i baratoi'r cynhyrchion bwyd a chynhwysion garnais i'w cyflwyno'n oer
7. Sut i gynhyrchu vinaigrette, sawsiau oer a dresinau sylfaenol
8. Sut i orffen a garneisio cynhyrchion bwyd i'w cyflwyno'n oer
9. Sut i wirio ac addasu cynhyrchion bwyd i sicrhau bod ganddynt y lliw, y blas a'r ansawdd cywir, a bod eu maint yn gywir
10. Pam mae amser a thymheredd yn bwysig wrth baratoi bwyd wedi'i goginio, ei gyweirio a'i baratoi i'w gyflwyno
11. Pam dylai bwydydd wedi'u coginio, eu cyweirio a'u paratoi gael eu storio ar y tymheredd gofynnol cyn eu cyflwyno
12. Opsiynau bwyta'n iach wrth baratoi a chyflwyno bwyd i'w gyflwyno'n oer

## Cwmpas/Ystod

**1. Cynhyrchion bwyd**
12.1 cynhyrchion bara
12.2 saladau
12.3 pasteiod wedi'u rhagbaratoi
12.4 cig coch/gwyn wedi'i goginio
12.5 pysgod
12.6 terinau wedi'u rhagbaratoi
12.7 patés wedi'u rhagbaratoi
12.8 cigoedd wedi'u cyweirio
12.9 pysgod cregyn
12.10 vinaigrette
12.11 sawsiau a dresinau oer

**2. Cynhwysion garnais**
2.1 ffrwythau
2.2 llysiau
2.3 perlysiau

**3. Dulliau paratoi**
3.1 sleisio
3.2 ychwanegu dresin
3.3 garneisio
3.4 rhannu'n ddognau
3.5 chwisgo
3.6 cyfuno cynhwysion

PPL2PC28

Paratoi a chyflwyno bwyd i'w gyflwyno'n oer

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2PC28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Coginio Proffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | paratoi, cyflwyno, bwyd, cyflwyno'n oer |